



Cyhoeddir drafft cyntaf y cwricwlwm Hanes newydd i Nghymru ym mis Ebrill 2019, ac mae Cymdeithas Owain Glyndŵr yn poeni na fydd hanes Glyndŵr ac Oes y Tywysogion yn cael eu cynnwys:

Gwallgofrwydd y Cwricwlwm Hanes Arfaethedig

Ym mis Gorffennaf 2018, 'roedd y Cynulliad Cenedlaethol yn trafod tynnu sylw at leoliadau hanesyddol o bwys yng Nghymru. 'Roedd y sylw penodol ar Lys Rhosyr, un o lysoedd tywysogion Gwynedd. Yn ystod y drafodaeth ehangodd y Prif Weinidog ar y pryd, Carwyn Jones, ystod y ddadl gan gyfeirio at ddysgu Hanes yn ysgolion Cymru:

“A part of our history that I think has been neglected actually over the years because we know that Welsh History was not well taught in schools for many, many years and in some ways as a nation we are not well aware of our own history.”

Aeth ymlaen i annog Cymry ac ymwelwyr i ddeall mwy am Hanes Cymru yn yr Oesoedd Canol neu Oes y Tywysogion.

Allwn ni ddim cytuno mwy. Mae cyfnodau cynnar ein hanes, megis Oes y Saint ac Oes y Tywysogion wedi eu hesgeuluso mewn nifer o ysgolion dros y blynyddoedd. Gadawodd nifer o bobl ifanc ein hysgolion dan y camargraff bod hanes Cymru yn cychwyn gyda dyfodiad y Crawshays, Guests a Homfrays i ardal Merthyr tua diwedd y ddeunawfed ganrif.

Daeth cyfle i wella'r sefyllfa a sicrhau na fydd pryderon y cyn Prif Weinidog yn parhau. Mae Cwricwlwm ysgolion Cymru yn cael ei addasu'n sylweddol ar hyn o bryd. Mae'n seiliedig ar argymhellion yr Athro Donaldson a bydd Drafft yn barod i'w ystyried ym mis Ebrill. Ond os dilynir canllawiau Donaldson yn gaeth, a dyna safbwynt presennol Llywodraeth Cymru, bydd y diffygion y soniodd Carwyn Jones amdanynt yn parhau.

Mewn ateb i gais am gyfarfod gyda Cymdeithas Owain Glyndŵr, oedd wedi danfon argymhellion atynt, cafwyd amlinelliad clir o feddylfryd y Llywodraeth. Daeth yr ateb ar ran Kirsty Williams, Ysgrifennydd Addysg y Cabinet.

“While the Programme of Study for History suggests topics for teaching, the curriculum is non-prescriptive - allowing each school the flexibility to choose the detailed topics, the balance of local and Welsh history ... this in turn is meant to allow teachers to create a scheme of work which is tailored to their learners.”

Mae'r ateb yn pwysu ar athroniaeth Yr Athro Donaldson, awdur Dyfodol Llywyddiannus ac yn honni bod “a high degree of prescription and detail at a national level inhibits the flow and progression in children and young people's learning and progression”. Mae'r ddamcaniaeth yma yn wrthgyferbyniol i neges y Prif Weinidog yng Ngorffennaf 2018. Tra

bod Carwyn Jones yn ein hannog i ddysgu mwy am Oes y Tywysogion, mae'r Adran Addysg yn rhoi rhwydd hynt i ysgolion osgoi neu dalu ond ychydig o sylw i'r cyfnod.

Canlyniad athroniaeth wallus Adran Addysg Llywodraeth Cymru, bydd parhau â'r anwybodaeth affwysol gan nifer o ddisgyblion o ddigwyddiadau allweddol yn ein hanes. Ai dim ond disgyblion y De Orllewin sydd i ddysgu am Helynt 'Beca a thlodi enbydus cefn gwlad ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg? Ai dim ond disgyblion ardal y llechi sydd i ddysgu am y streic hiraf yn hanes diwydiannol Prydain ar ddechrau'r ugeinfed ganrif? Os mai athrawon sydd i benderfynu ar y cydbwysedd rhwng y lleol a'r cenedlaethol mae'n eithaf posibl mai hynny fydd yn digwydd. Mae hefyd yn codi amheuan am y drefn o alw yr Ysgolion Arloesi, o bob cwr o Gymru at ei gilydd, os yw ysgolion unigol yn medru penderfynu ar yr hyn sydd yn flaenoriaeth i'w disgyblion nhw.

Mae'r meddylfryd presennol wedi siomi awdur yr argymhellion gwreiddiol gyflwynwyd gan y Gweithlu i Lywodraeth Cymru yn 2013 "Y Cwricwlwm Cymreig hanes a stori Cymru" sef Dr Elin Jones. Gwnaeth hynny'n glir yng nghyfarfod Blynnyddol Cymdeithas Owain Glyndŵr, yn Pennal yn 2018. Mae ei hadroddiad yn tanlinellu'r angen am gyflwyno mwy o hanes Cymru trwy lygaid Cymreig yn hytrach nag o perspectif Seisnig, fel sydd wedi digwydd dros ddegawdau niferus. Mae'r angen i ddechrau'n lleol yn cael ei nodi hefyd, sef symud o'r cyfarwydd i'r dieithr fesul cam.

Onid yr ateb yw llunio Llinellau Amser yn cyfeirio at Lleol/Cymru/Gweddill Prydain/Ewrop a'r Byd? Mae enghreifftiau lu o ddigwyddiad sydd yn cychwyn yn lleol yn lledaenu ymhell tu hwnt i'r man cychwyn. Dechreuodd ysgolion Griffith Jones yn ardal Llanddowror, Sir Gaerfyrddin. Ond lledodd y cynllun ar draws Cymru. O Loegr 'roedd ei noddwraig, Madam Bevan, yn cael yr arian i gynnal yr ysgolion. Danfonodd y Czarina Cathrin Fawr o Rwsia ymchwilyr i weld beth oedd yn digwydd. Yn y 1950au rhoddodd y Cenhedloedd Unedig ystyriaeth i ddefnyddio cynllun Griffith Jones mewn gwledydd difreintiedig. Nid hanes cul yw dechrau ar y cyfarwydd cyn symud at faterion y tu hwnt i'r lleol a Chymru. Mae hanes ysgolion Griffith Jones yn cynnig cyfle i edrych ar gymdeithasau Lloegr a Rwsia yn y ddeunawfed ganrif, yn ogystal â gwaith y Cenhedloedd Unedig. Ond os mai "non-prescriptive" yw'r canllaw hanfodol, pa sicrwydd sydd y bydd plant y tu allan i Sir Gaerfyrddin yn gwybod am hanes yr ymgyrch ryfeddol hon, sicrhaodd bod tua hanner poblogaeth Cymru yn llythrennog erbyn 1800?

Yr unig drefn all sicrhau bod disgyblion 5-14 oed yn dysgu am y bobl a'r digwyddiadau mwyaf allweddol yn ein hanes, megis Owain Glyndŵr a Griffith Jones, yw dilyn trefn gronolegol a nodi bod disgwyl i ysgolion ddysgu nifer penodol o bynciau allweddol. Byddai hyn yn cynnwys digwyddiadau yng Nghymru, gweddill Prydain, Ewrop a'r Byd. Yn naturiol, byddai modd i athrawon gyfeirio at enghreifftiau lleol o'r prif ddatblygiadau megis brwydr o Oes y Tywysogion neu lofa leol adeg y Chwyldro Diwydiannol.

Y drefn gronolegol yw'r patrwm mai haneswyr arfer ei ddilyn, megis y diweddar John Davies yn ei gampwaith "Hanes Cymru". Mae John Davies hefyd yn argymhell cyfnodau allweddol sydd yn gweddu i'r prif ddatblygiadau yn hanes Cymru. Dilynodd Huw Edwards yr un drefn gronolegol yn ei gyfres deledu "The Story of Wales" sydd wedi

ei ail ddarlledu ar BBC4 yn ddiweddar. Gallai'r gyfres fod yn ddeunydd defnyddiol i ysgolion, fel y gwnaeth adroddiad Dr Elin Jones ei nodi. Yn y drafodaeth ddilynodd y darllediad gwreiddiol, datgelwyd bod nifer o ymatebwyr yn nodi nad oeddent yn gwybod am nifer o'r digwyddiadau hanesyddol. Nododd dau fyfyrwr Hanes Safon Uwch, eu bod wedi dysgu mwy o Hanes Cymru yn y gwersi Cymraeg na'r gwersi Hanes. Mae'r bylchau yng ngwybodaeth pobl a'r amharodrydd i ddysgu Hanes Cymru mewn gwersi Hanes, yn debygol o barhau, o ddilyn yr argymhellion presennol.

Heblaw am y cynnwys hanesyddol, mae angen i ddisgyblion ddeall y newid yn natur tystiolaeth hanesyddol. Dim ond trefn gronolegol all sicrhau deall y newid o dystiolaeth archaeolegol i ysgrifen ac ymlaen at luniau a ffilm ac yna i'r byd digidol. Ond mae canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru yn caniatáu i ysgolion symud o un cyfnod i'r llall, yn dibynnu ar gyd destun yr ysgol.

Bydd y penderfyniadau terfynol ar y Cwricwlwm yn cael ei cymryd yn 2019, gyda'r drafft cyntaf i'w gyhoeddi ym mis Ebrill. Mae angen diwygio sylweddol ar yr argymhellion presennol ar gyfer cwricwlwm Hanes ysgolion Cymru, os nad ydym i barhau gyda'r arfer o wall ar ein cof neu wallgofrwydd cenedlaethol.



MENTER NEWYDD AM COFIO LLYWELYN

Mae Cymdeithas Cofio Llywelyn yn gobeithio codi cofeb i ddynion fyddin Llywelyn a fu farw ym 1282 yn ôl bradwriaeth, ar ôl dod i'r de i gefnogi Llywelyn, lle maen nhw'n gwersylla ar y Cwrs Golff Llanfair-ym-Muallt presennol.

Mae gan y Gymdeithas y dyluniad, a hefyd gefnogaeth Clwb Golff Llanfair-ym-Muallt, ond nawr maen nhw angen yr arian – sawl mil o bunnoedd.

Y dylunydd a'r engrafwr adnabyddus, Ieuan Rees, wedi darparu'r dyluniad hardd hwn:



Yn y Flwyddyn Newydd byddant yn trefnu Cyfrif Crowdfunding ond, yn y cyfamser, gallant gasglu arian parod neu byddent yn croesawu sieciau a anfonir at eu Trysorydd:

Sybil Davies, 2 Brombil Cottages, Margam, Port Talbot SA13 2SR
neu daliadau BACS i'w Cyfrif Busnes:

Enw'r Cyfrif: 'I Fyddin Llywelyn'

Côd y Banc: 20-58-72

Rhif y Cyfrif: 73946436

Diolch am eich cefnogaeth